O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

**2015 Rhif 1633 (Cy. 212)**

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 a Thraffordd yr M4 (Cyfnewidfa Castell-nedd i Gyfnewidfa Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Awst 2015* |
| *Yn dod i rym* | *1 Medi 2015* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Castell-nedd – y Fenni (yr A465) a Thraffordd Llundain – De Cymru (yr M4) ("y gefnffordd" ac "y draffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'r draffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd a'r draffordd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Dehongli a Chychwyn

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2015 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 a Thraffordd yr M4 (Cyfnewidfa Castell-nedd i Gyfnewidfa Llandarcy, Castell-nedd Port Talbot) (Gwaharddiad a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2015.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod sy'n dechrau am 19:00 o'r gloch ar 1 Medi 2015 ac

sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd a'r draffordd ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**Cyfyngiadau**

**4.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a'r draffordd a bennir yn Atodlen 3.

**Atal Dros Dro**

**6.** Mae darpariaethau rheoliad 3 o Reoliadau Traffig Traffyrdd (Terfyn Cyflymder) 1974**(3)**, i'r graddau y maent yn gymwys i'r darnau o'r draffordd a bennir yn Atodlen 3, drwy hyn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 5 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**7.** Nid yw darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y mae arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 25 Awst 2015

*R Morgan*
**RICHARD MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1974/502.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn o'r rhan ogleddol o Gylchfan Llandarcy (Cyffordd 43 yr M4) sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r B4290 hyd at ei chyffordd â'r A465.

Y darn o'r rhan ddeheuol o Gylchfan Llandarcy (Cyffordd 43 yr M4) sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ymyl cwrb de-ddwyreiniol yr A465 hyd at ei chyffordd ag ymyl cwrb gogledd-orllewinol y B4290.

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Llandarcy (Cyffordd 43 yr M4) hyd at ei chyffordd â Chyfnewidfa Castell-nedd.

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Castell-nedd.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 50 mya Dros Dro

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 1 cilometr i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Llandarcy hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

### ATODLEN 3
### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r gorllewin y draffordd wrth Gyffordd 43.

Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain y draffordd wrth Gyffordd 43.

Cerbytffordd gylchredol gyfan Cylchfan Llandarcy (Cyffordd 43).